

CWESTIYNAU YMGYNGHORI

AMDANOCH CHI

Enw: Parch. Gethin Rhys

Sefydliad (os yn berthnasol): Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

Nodwch yma os hoffwch aros yn ddienw.

E-bost: gethin@cytun.cymru

Cyfeiriad: 58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT.

CWESTIYNAU CYFFREDINOL

Nodwch a ydych yn ymateb fel:
(Rhowch dic)

- Unigolyn
- Ar ran sefydliad ✓

Nodwch pa un o rain sydd yn cynrychioli chi neu eich sefydliad orau.
[Ticiwch bob un sy'n berthnasol]

- Ffermio
- Coedwigaeth
- Mae buddiannau amgylcheddol
- Twristiaeth/lletygarwch
- Mae cadwyni cyflenwi bwyd a phren
- Sector cyhoeddus
- Sector preifat
- Trydydd sector ✓
- Undeb Llafur neu gynrychiolydd
- Arall, rhowch fanylion isod

Lluniwyd yr ymateb hwn gan Weithgor Cymru ac Ewrop Cytûn yn dilyn ymgynghori helaeth gydag aelodau eglwysig ac eraill ledled Cymru, gan gynnwys unigolion – nifer ohonynt ag arbenigedd sylweddol o ran defnydd tir; caplaniaid ac ymgynghorwyr cefn gwlad yr enwadau; a chyfarfod cyhoeddus yn Llanbedr Pont Steffan lle bu amaeth a'r amgylchedd yn faterion trafod allweddol. Tynnwyd hefyd ar gofnodion cyfarfod gynhaliwyd dan nawdd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar Hydref 12 yn Nolgellau dan yr enw 'Bugeilio Cefn Gwlad'.

CWESTIYNAU 1 o 20

PENNOD 4: Rhaglen Rheoli Tir

Rydym yn cynnig Rhaglen Rheoli Tir newydd sy'n cynnwys Cynllun Cadernid Economaidd a chynllun Nwyddau Cyhoeddus. Ydych chi'n cytuno mai'r cynlluniau hyn yw'r ffordd orau o gyflawni mewn perthynas â'r egwyddorion?

1. Ydw
2. Nac Ydw
3. Ansicr ✓

Os nad ydych, pa ddewisiadau eraill fyddai orau?

Rydym yn cefnogi egwyddorion 1,2,3 a 5.

Mae'r eglwysi Cristnogol yn pryderu'n fawr am newid yn yr hinsawdd a difwyno'r amgylchedd mewn ffyrdd eraill, ac mae gennym felly gryn gydymdeimlad ag egwyddor 4. Ond credwn fod egwyddor 4 (y dylai cymorth yn y dyfodol fod ar gael dim ond ar gyfer darparu nwyddau cyhoeddus) yn rhagflaenu'r ateb i'r cwestiwn ymgynghori hwn – nid egwyddor ydyw, ond dyfarniad o ran polisi..

Dangosodd ein hymgyngoriad â ffermwyr yn ardal Llanbedr Pont Steffan fod yna ofid dwfn ynghylch newid o'r fath, yn enwedig ar gyfer ffermwyr defaid, sydd ar hyn o bryd yn ddibynnol iawn ar allforio i'r UE. "Ni all ffermio defaid oroesi heb nawdd", dywedwyd wrthym. Mynegwyd pryderon tebyg i'n swyddogion cefn gwlad gan ffermwyr llaeth. Ni chydabyddir y gwirionedd cignoeth hwn yn *Brexit a'n Tir*.

Credwn fod cynnal cymunedau (pobl) cefn gwlad yn ogystal ag economi ac amgylchedd cefn gwlad yn nwydd cyhoeddus, a chredwn y dylai'r rhaglen gydnabod hyn yn benodol. Yn ymgynghoriad Llambod fe glywsom ofid dwfn y gellir colli cymunedau cyfain wrth gollu taliadau sengl sylfaenol.

Rydym yn cefnogi'r syniad o dalu ffermwyr am ddarparu nwyddau cyhoeddus yn hytrach nag am berchen ar dir yn unig. Ond credwn fod cynhyrchu bwyd yn lleol ar gyfer Cymru yn "nwydd cyhoeddus" – er nad ydyw dan y diffiniad a ddefnyddir yn y ddogfen hon, para 6.14, sy'n eithrio unrhyw weithgarwch sydd â gwerth yn y farchnad. Nid ydym yn credu fod yna wrthgyferbyniad sylfaenol rhwng 'nwyddau cyhoeddus' a 'gwerth yn y farchnad' – yn wir, os gallwn gefnogi gweithgarwch sy'n hybu'r ddau, yna mae hynny er lles pawb, ac yn helpu cyfrannu at fwy o amcanion llesiant Cymru.

Credwn ei bod er budd cyhoeddus i fwyd maethlon o safon uchel gael ei gynhyrchu yng Nghymru. Mae er budd y cyhoedd i'r bwyd yma fod ar gael am brisiau rhesymol ac i'r pris fod yn weddol sefydlog. Mae er budd yr amgylchedd i ni beidio â gorfod mewnfario ein holl fwyd o fannau eraill a mae hyn nwydd cyhoeddus. Credwn felly y dylid sefydlu ochr yn ochr â'r Cynlluniau Cadernid Economaidd a Nwyddau Cyhoeddus Gynllun Cynhyrchu Bwyd fydd yn hybu cynhyrchu bwyd maethlon, amgylcheddol gynaliadwy, uchel ei safon yng Nghymru. Pwysleisiwn y byddai'r cynllun hwn yn ymwneud â chynhyrchu bwyd o bob math, nid anifeiliaid yn unig. Byddem yn cefnogi ailgyflwyno cnydau bwyd gafodd eu tyfu yn flaenorol yng Nghymru (mae llyfr diweddar Carwyn Graves, *Afalau Cymru*, a gwaith cyfochrog yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn rhoi un enghraifft ymarferol o beth allai fod yn bosibl) a chyflwyno cnydau bwyd newydd.

Cytunwn â'r sylw ym mhara 3.18 y bydd llawer yn newid yn y deng mlynedd nesaf, a bod cefnogi cadernid economaidd trwy newid o'r fath yn hanfodol, ond fe fyddem yn dadlau nad yw'r angen am fwyd yn debygol o newid.

Nodwn hefyd y sylw ym mhara 5.36 mai un nodwedd gadarnhaol o'r Cynllun Taliadau Sengl yw ei allu i reoli cyfnewidioldeb mewn busnes sydd o'i natur yn cynnwys risg. Credwn fod hyn yn awgrymu'r angen am ryw fath o daliad Cynllun Cynhyrchu Bwyd i osgoi trosglwyddo'r risgiau hyn o gynhyrchwyr i'r gymdeithas wledig ehangach ac i brynwyr bwyd.

CWESTIYNAU 2 o 20

PENNOD 4: Rhaglen Rheoli Tir

A oes angen i Lywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod tenantiaid yn gallu cael mynediad at gynlluniau newydd?

1. Oes ✓
2. Nac Oes
3. Ansicr

Os felly, pa gamau gweithredu fyddai orau?

Rydym yn cefnogi ffermio gan denantiaid a byddem am iddynt gael mynediad i'r cynlluniau ar yr un telerau â pherchnogion tir.

CWESTIYNAU 3 o 20

Pennod 5: Cadernid Economaidd

O'ch profiad chi o raglenni cyfredol, beth fyddai'n gweithio'n dda yn y dyfodol yn eich tyb chi?

Nid yw'r ymateb hwn wedi ei ysgrifennu gan bobl â phrofiad uniongyrchol o'r rhaglenni presennol, felly nid oes sylw penodol gennym.

CWESTIYNAU 4 o 20

Pennod 5: Cadernid Economaidd

Ydych chi'n cytuno â'r ffaith bod ffocws y Cynllun Cadernid Economaidd ar dyfu'r cyfleoedd mewn marchnadoedd ar gyfer cynnyrch o'r tir drwyddi draw yn y gadwyn gyflenwi, yn hytrach na chyfyngu'r cymorth i fusnesau rheoli tir yn unig?

Yn gyffredinol, ydyn.

CWESTIYNAU 5 o 20

Pennod 5: Cadernid Economaidd

Ai'r pum maes arfaethedig ar gyfer cymorth yw'r rhai cywir i wella cadernid economaidd?

1. Ie
1. Na
2. Ansicr ✓

A oes unrhyw feysydd y dylid eu cynnwys ond nad ydynt wedi'u cynnwys ar hyn o bryd?

Nid oes gennym yr arbenigedd i ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn. Ond fe nodwn nad yw *Brexit a'n Tir*, yn wahanol i Bapur Gwyn cyfatebol DEFRA, yn trafod mewn unrhyw fanylder y berthynas rhwng yr hyn a argymhellir a rheolau Blwch Gwyrdd/Melyn y WTO – mae'r drafodaeth fer yn 6.32-6.34 yn hollol annigonol. Mae hyn yn fater pwysig a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad o'r mater cyn penderfynu sut i fwrw ymlaen.

CWESTIYNAU 6 o 20

Pennod 5: Cadernid Economaidd

O'r pum maes arfaethedig ar gyfer cymorth, pa rai yw'r blaenoriaethau, o ran cyllid a'r drefn o ran eu darparu? Er enghraifft, a oes angen rhoi rhai mesurau ar waith cyn rhai eraill?

Nodwn a deallwn gynnwys maes arallgyfeirio ym mhara 5.32-5.35, a chytunwn y dylai cyllid cyhoeddus fod ar gael ar gyfer y maes hwn. Ond mae yna derfyn ar faint o lety gwyliau a siopau fferm sydd eu hangen mewn ardaloedd unigol, a hoffem weld enghreifftiau mwy eglur o'r math o gynlluniau y byddai Llywodraeth Cymru am eu cefnogi.

Tra bod llawer o'n haelodau mewn ardaloedd gwledig yn pryderu am y gostyngiad arfaethedig o ran cefnogaeth i ffermio defaid a gwartheg, mae eraill o fewn ein haelodaeth yn ymwybodol iawn o'r cyfraniad sylweddol a wneir gan y ffermio hyn at newid hinsawdd (tua 10% o gyfraniad Cymru i allyriadau nwyon tŷ gwydr). Nodwn fod niferoedd y defaid yng Nghymru wedi dyblu yn ystod y 1970au o ganlyniad i drefniadau'r cyfnod dan y Polisi Amaeth Cyffredin, a byddai llawer o'n haelodau yn cefnogi dychwelyd yn raddol i'r niferoedd o anifeiliaid a gedwid cyn 1973. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r pwysau (a anogwyd ar un adeg gan daliadau'r PAC) i 'wella'r ucheldir trwy ddraenio, gwrteithio ac ail-blannu, ac yn eu galluogi i ddychwelyd i gyflwr mwy naturiol.

Ond rhaid i newidiadau pwyslais o'r fath o fewn y cynlluniau taliadau barhau i gynnal cymunedau hyfyw o bobl yng nghefn gwlad Cymru. Byddem felly am sicrhau fod arallgyfeirio o fewn cynhyrchu bwyd (e.e. cyflwyno amaeth-goedwigaeth neu troi peth tir pori i dyfu cnydau neu ffrwythau) yn gymwys dan y cynllun hwn. Byddem yn yr un ffordd yn dymuno gweld cefnogaeth i arallgyfeirio sy'n galluogi prosesu bwyd ar y tir a mentrau 'ffarm i'r fforc', gan gynnwys defnyddio llaeth lleol ar gyfer cynhyrchion llaeth. Nodwn fod rhai mentrau o'r fath (megis Rachel's Dairy) wedi cael eu gwerthu yn y pen draw i gwmnïau allanol mawr. Tra bod hyn yn galluogi cyflwyno cyfalaf newydd i'r busnes, mae hefyd yn lleihau'r gwerth cymdeithasol ac

economaidd lleol. Tra'n derbyn y gall hyn fod yn ddilema, byddem yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod amodau'r taliadau yn addas ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath pan fyddant yn codi.

Mae'r ddogfen fel petai'n derbyn ei bod yn anochel y bydd mewnfurion o fannau eraill yn cystadlu â chynnyrch o Gymru wrth i gytundebau masnach gael eu gweithredu wedi Brexit. Rydym yn sylweddoli na all cynlluniau grant y Llywodraeth wrthweithio'n llwyr effeithiau'r farchnad, a bod rhannau o'r gadwyn gyflenwi ar wahân i ffermwyr a chymunedau gwledig yn elwa o'r taliadau hyn – e.e. fe allant gynyddu gallu archfarchnadoedd i wasgu cyfran elw ffermwyr, gan dynnu peth o werth y taliad o'r derbynnydd gwreiddiol.

Tra'n derbyn nad yw hyn yn llwyr ddatganoledig, hoffem weld amlinelliad o agwedd Llywodraeth Cymru at hybu cynnyrch Cymreig a lleihau milltiroedd y gadwyn fwyd – yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – yn ogystal ag annog ffermwyr Cymru i fod yn barotach ar gyfer allforio.

Yn ein hymgyngoriad yn Llambod, roedd y sawl a ddaeth yn awyddus i archwilio ymhellach i hunan-gynhaliath leol o ran bwyd a chynhyrchion eraill y tir (e.e. trwy [Grŵp Paramaethu Llanbedr Pont Steffan](#)), a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu y math hwn o gadernid economaidd.

CWESTIYNAU 7 o 20

Pennod 5: Cadernid Economaidd

A ddylem fod yn buddsoddi mewn pobl, er enghraifft i gyflwyno syniadau, sgiliau a phobl newydd i faes rheoli tir a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru?

1. Ddylem ✓
2. Ni Ddylem
3. Ansicr

Os felly, sut ddylem ymchwilio i hyn?

Byddem yn annog yn gryf cynyddu cyllido rhannau perthnasol y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru er mwyn cyflwyno rhaglenni pwrpasol. Byddai hyn yn cynnwys addysg mewn sgiliau marchnata a hybu cynnyrch Cymreig yn ogystal â rheoli tir fel y cyfryw. Yn wyneb pwysigrwydd y Gymru wledig i'r iaith Gymraeg, hoffem weld rhaglenni o'r fath yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Dylai'r ddarpariaeth gael ei hariannu ar y cyd â'r Adran Addysg a'i chyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid perthnasol.

CWESTIYNAU 8 o 20

Pennod 6: Nwyddau Cyhoeddus

Rydym wedi nodi ein paramedrau arfaethedig ar gyfer y cynllun nwyddau cyhoeddus. A ydynt yn briodol?

1. Mae
2. Nid yw ✓
3. Ansicr

Fyddech chi'n newid unrhyw beth?

1. Fyddem ✓
2. Ni Fyddem
3. Ansicr

Os felly, beth?

Gweler ein sylw yn Cn 1 uchod am ystyried cynhyrchu bwyd lleol a chynnal Cymdeithas cefn gwlad yn nwyddau cyhoeddus. . Nid ydym yn credu fod yna wrthgyferbyniad sylfaenol rhwng 'nwyddau cyhoeddus' a 'gwerth yn y farchnad' – yn wir, os gallwn gefnogi gweithgarwch sy'n hybu'r ddau, yna mae hynny er lles pawb, ac yn helpu cyfrannu at fwy o amcanion llesiant Cymru.

Rydym felly yn cefnogi'r awgrym ym mhara 6.21 i geisio mesur gwerth cadw pobl ar y tir a hoffem weld cynigion cadarn yn y maes hwn yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn y dyfodol agos.

Rydym yn cefnogi defnyddio'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus i helpu trechu newid yn yr hinsawdd. Ond cydnabyddwn fod peth newid di-droi'n-ôl eisoes yn digwydd i'n hinsawdd. Mae hyn yn agor y posibilrwydd o dyfu cynydau newydd, yn ogystal ag adfer tyfu cynydau traddodiadol Cymreig (gweler ein hateb i Cn 1 uchod). Byddem am weld arallgyfeirio cynhyrchu cynydau o dyfu glaswellt i fwydo anifeiliaid i dyfu cynydau y gall pobl eu bwyta yn flaenoriaeth i'w chefnogi.

CWESTIYNAU 9 o 20

Pennod 6: Nwyddau Cyhoeddus

Mae'r cynllun hwn i fod i gynnig y cyfle i reolwyr tir gael mynediad at ffrwd incwm newydd sylweddol wrth i'r BPS ddod i ben. Sut allem ni wella'r hyn sy'n cael ei gynnig i ddenu rheolwyr tir tra'n gwireddu ein gweledigaeth ac yn cyflawni ein hamcanion?

Gweler Cn 1 uchod parthed ein hawgrym am Gynllun Cynhyrchu Bwyd.

CWESTIYNAU 10 o 20

Pennod 6: Nwyddau Cyhoeddus

A oes unrhyw nwyddau cyhoeddus eraill y dylid eu cefnogi yn eich tyb chi?

1. Oes ✓
2. Nac Oes
3. Ansicr

Os felly, pam?

Cynhyrchu bwyd a chynnal cymunedau cefn gwlad (gweler Cn 1 Cn 8) a'r iaith Gymraeg (gweler Cn 19).

CWESTIYNAU 11 o 20

Pennod 6: Nwyddau Cyhoeddus

Gallai nifer o nwyddau cyhoeddus gymryd blynyddoedd lawer, weithiau degawdau, i gael eu gwireddu'n llawn, e.e. dal a storio carbon trwy goed llydanddail. Er mwyn cyflawni'r rhain, efallai y bydd angen i reolwyr tir ymrwymo i gcontract hirdymor. Sut ydych chi'n rhagweld y bydd cytundebau o'r fath yn gweithio? Beth fydd manteision neu anfanteision cytundebau o'r fath yn eich tyb chi?

Rydym yn cefnogi'n gryf cynllunio tymor hir o'r fath – ac mae'n orfodol beth bynnag dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Amgylchedd Cymru. Gall cynlluniau grant tymor-byr fod yn wrthgynhyrchiol iawn o ran rheoli'r tir yn gynaliadwy.

CWESTIYNAU 12 o 20

Pennod 6: Nwyddau Cyhoeddus

Gallai dull cydweithredol o ddarparu nwyddau cyhoeddus ddarparu mwy o werth am arian na gweithgarwch ar wahân mewn rhai achosion. Sut allai'r cynllun hwyluso'r dull hwn? Sut allai cyrff cyhoeddus a phreifat gyfrannu at bartneriaethau o'r fath?

Rydym yn bleidiol iawn i ddull cydweithredol, rhwng tiffeddianwyr, tenantiaid, busnesau a chymunedau cefn gwlad. Byddem am weld ymgynghori a chynllunio sylweddol yn ystod cyfnod trawsnewid estynedig (gweler Cn 16). Yn y maes hwn yn fwy na llawer, gallai gweithredu yn rhy sydyn arwain at ganlyniadau difrifol dros ben.

CWESTIYNAU 13 o 20

Pennod 6: Nwyddau Cyhoeddus

Gall rhai camau gweithredu ddarparu nwyddau cyhoeddus lluosog yn yr un lleoliad. Er enghraifft, gall adfer mawnogydd ddwyn manteision ar gyfer dal a storio carbon a lleihau perygl llifogydd. Fodd bynnag, gallai rhai lleoliadau fod yn addas ar gyfer nwyddau cyhoeddus lluosog o weithgareddau gwahanol. Er enghraifft, gallai un lleoliad fod yn addas naill ai i blannu coed ar gyfer dal a storio carbon, neu gael ei droi'n ôl yn wlypdir ar gyfer bioamrywiaeth. Sut allai lleoliadau ar gyfer manteision unigol, lluosog neu fanteision sy'n cystadlu â'i gilydd gael eu blaenoriaethu?

Dim sylw.

CWESTIYNAU 14 o 20

Pennod 6: Nwyddau Cyhoeddus

O ystyried y bydd cymorth i ddarparu nwyddau cyhoeddus yn ddull newydd yng Nghymru, bydd peth wmbredd o hyfforddiant a chynghor ar gyfer y sector yn ofynnol. Sut orau ellir darparu'r hyfforddiant a'r cynghor hwn? Pa feysydd yn y sector yw'r rhai y mae arnynt angen y mwyaf o sylw?

Gweler Cn 7. Cytunwn fod pwysleisio nwyddau cyhoeddus yn gofyn i Lywodraeth Cymru osod addysg, hyfforddiant a chefnogaeth addas yn eu lle CYN dechrau newid i system newydd (gweler Cn 16), ac edrychwn ymlaen at ymgynghori am gynllun gweithredu manwl.

CWESTIYNAU 15 o 20

Pennod 6: Nwyddau Cyhoeddus

Mae buddsoddi'n breifat mewn prynu nwyddau cyhoeddus eisoes yn digwydd, ond ar raddfa gymharol fach. Sut allai'r cynllun newydd hybu mwy o ymwneud gan y sector preifat? Beth yw'r rhwystrau i'r math yma o fuddsoddiad?

Dim sylw.

CWESTIYNAU 16 o 20

Pennod 8: Pontio, cyflawni a deddfwriaeth

Beth yw eich sylwadau ar y cyfnod pontio graddol a'n huchelgais i gwblhau'r newidiadau erbyn 2025?

Ystyriwn fod yr amserlen hon yn llawer rhy gyflym, o ystyried graddfa'r newid a awgrymir a'r amser hir sydd ei angen er mwyn cynllunio newidiadau yn rheoli'r tir (a gydnabyddir yn eich geirio yng nghwestiynau 11 ac 14). Nodwn fod Bil Amaeth 2017-19 sy'n cael ei ystyried gan Senedd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn rhagweld cyfnod trawsnewid graddol o saith mlynedd yn dechrau yn 2022, ac felly yn parhau tan 2029. Byddem yn ystyried mai dyma'r amserlen gyflymaf bosibl ar gyfer newid mor fawr a hir-dymor, ac nid ydym yn credu fod cwblhau'r newidiadau erbyn 2025 yn realistig nac yn ddymunol.

Cryfheir yr ystyriaeth hon gan y cyhoeddiad diweddar iawn ynghylch penodi'r Arglwydd Bew i arwain ymchwiliad parthed dosbarthu ariannu rhwng cenhedloedd y DU, ac fe all cynllunio realistig ar gyfer trefn newydd yng Nghymru ddechrau dim ond pan geir canlyniad yr ymchwiliad hwnnw.

Gweler hefyd y sylwadau yn Cn 20 isod.

CWESTIYNAU 17 o 20

Pennod 8: Pontio, cyflawni a deddfwriaeth

Beth yw'r ffordd fwyaf priodol o ddirwyn y BPS i ben yn raddol er mwyn dechrau cynnal y cynlluniau newydd?

Mae'r gyfran uchel iawn o incwm llawer o ffermwyr Cymru a ddaw drwy'r BPS yn golygu fod rhaid i ddirwyn y cynllun hwnnw i ben ddigwydd yn raddol, mewn modd rheoledig a rhagweladwy, os and yw i greu trychineb gymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru (tebyg i'r drychineb yn y cymunedau glofaol pan gaewyd y diwydiant glo ar ras a heb gynlluniau amgen ar gyfer y cymunedau yn y 1970au a 1980au). Mae diboblogi cefn gwlad eisoes yn fater difrifol, a gallai dirwyn y cynllun i ben yn gyflym neu'n ddi-drefn niweidio gwead bywyd gwledig a thanseilio holl amcanion y cynigion hyn. Gan na fydd comisiwn y DU dan arweiniad yr Arglwydd Bew am ariannu yn mynd i adrodd am rai misoedd, ni chredwn y dylai Llywodraeth Cymru osod amserlen dros dro hyd yn oed hyd nes ceir eglurder am hynny. Dylai wedyn ymgynghori'n ddwys â holl dderbynwyr presennol y BPS a rhanddeiliaid eraill er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

CWESTIYNAU 18 o 20

Pennod 8: Pontio, cyflawni a deddfwriaeth

Sut allwn symleiddio'r broses gyfredol o weinyddu a chynnal y BPS yn ystod y cyfnod pontio graddol?

Dim sylw.

CWESTIYNAU 19 o 20

Safonau'r Gymraeg

A fydd y rhaglen rheoli tir arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n anffafriol) ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Mewn llawer rhan o Gymru, mae'r iaith Gymraeg yn rhan allweddol o fywyd cefn gwlad, ac mae cynnal cymunedau cefn gwlad hyfyw yn hanfodol er lles yr iaith. Mae mudiadau gwirfoddol allweddol, megis addoldai, eisteddfodau lleol, neuaddau pentref, canghennau Merched y Wawr, a'r Ffermwyr Ifainc, ayb, yn angorau ar gyfer iaith a diwylliant Cymru. Barn llawer o gynulleidfaoedd eglwysig cefn gwlad yw bod y syniad o ddirwyn y BPS i ben mor gynnar â 2025 yn andwyol i'r Gymraeg. Fe fydd rhai newidiadau i ddefnydd o'r tir yn gofyn am ganiatâd cynllunio a bydd angen cryfhau yr arweiniad presennol am yr iaith yn PPW 10 (paragraffau 2.47-2.51 y drafft ymgynghori) ac yn enwedig TAN20 i ymdrin â'r sefyllfa ddi-gynsail hon.

CWESTIYNAU 20 of 20

A ydych yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau pellach?

Mae nifer o eglwysi cefn gwlad, caplaniaid cefn gwlad a [Tir Dewi](#) wedi mynegi pryder bugeiliol dwfn am effaith yr ansicrwydd a achosir gan Brexit a'r newidiadau canlyniadol anochel ar iechyd meddyliol ffermwyr ac eraill sy'n ddibynnol ar yr economi weledig. Mae'r nifer bryderus o hunan-laddiadau ymysg y gymuned amaeth, yn ogystal ag afiechyd meddyliol ac unigrwydd (gan fod y rhan fwyaf o fusnesau fferm Cymru yn fentrau un dyn neu un teulu). Dim ond yn rhannol y cydnabyddir hyn yn ymgynghoriad cyfredol Llywodraeth Cymru, *Cysylltu Cymunedau*. Barn y sawl sy'n ceisio cefnogi'r sawl sydd dan bwysau o'r fath yng nghefn gwlad Cymru yw bod newid enfawr mewn taliadau o'r fath a awgrymir gan *Brexit a'n Tir* yr un mor arwyddocaol i'r cymunedau hynny ag y mae cyflwyno'r Credyd Cynhwysol – a feirnedir yn fynych gan Weinidogion Cymru yn ogystal â chan yr eglwysi – i rai cymunedau eraill. Mae angen felly rheoli'r newid hwn mewn ffordd reoledig, graddol ac eglur, yn dangos gofal mawr am yr unigolion a effeithir fwyaf.